| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR IAITH |
| **DYDDIAD:** | MEHEFIN 27, 2014 |
| **TEITL:** | YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB |
| **AWDUR:** | SWYDDOG DATBLYGU IAITH |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CAIS AM GEFNOGAETH GAN YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB |

**<u>DATGANIAD MYNYDDOEDD PAWB</u>**

Mewn cynhadledd, o dan yr enw ‘Mynyddoedd Pawb’ a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glan-llyn, Llanuwchlyn ar y 23ain o Dachwedd 2013 daeth nifer o gymdeithasau ac unigolion ynghyd. Pwrpas y gynhadledd oedd trafod y bygythiad sydd i enwau Cymraeg ar nodweddion tirlun Cymru, megis mynyddoedd, cymoedd a llynnoedd yng ngwyneb proses o ddisodli’r enwau hynny gyda chyfieithiadau i’r Saesneg neu fathu enwau llwyr wahanol yn Saesneg.

Yn sgil y gynhadledd dirprwywyd cynrychiolwyr o'r sefydliadau a’r mudiadau canlynol i lunio datganid a fyddai’n cwmpasu pryderon ac amcanion y gynhadledd: Menter Iaith Conwy; Antur Stiniog; Cymdeithas Edward Llwyd; Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru; Clwb Mynydda Cymru, Yr Urdd a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Gweler atodiad 1 am gopi o’r datganiad.

Drwy rwydwaith Mentrau Iaith y gogledd daeth cais am gefnogaeth at hunan**iaith** gan drefnwyr ymgyrch Mynyddoedd Pawb.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb gyrff cyhoeddus, y sefydliadau trydedd sector a’r mentrau preifat hynny sy’n weithredol yn y maes amgylcheddol, twristiaeth a gweithgareddau awyr agored i barchu'r cyfoeth o enwau Cymraeg ar nodweddion ar dirlun Cymru.

Yn benodol galwant ar i:

- Lywodraeth Cymru i ddod a newid enwau lleoedd traddodiadol a hir sefydlog dan reolaeth y drefn gynllunio;
- ganolfannau awyr agored barchu enwau lleoedd traddodiadol brodorol;
- asiantaethau cyhoeddus, sefydliadau'r drydedd sector a mentrau preifat sy’n weithredol yn y sectorau amgylcheddol; treftadaeth a thwristiaeth dynnu sylw at y cyfoeth enwau lleoedd sy’n perthyn i dirlun Cymru.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb hefyd ar gyrff cyhoeddus, sefydliadau trydedd sector a mentrau preifat sy'n cefnogi eu hachos ddatgan hynny er mwyn eu gosod mewn sefyllfa gryfach i fynd a'r maen i'r wal.

Mae llythyr o gefnogaeth eisoes wedi ei anfon at drefnyddion yr ymgyrch gan gadeirydd Grŵp Cyfeiriad Strategol hunan**iaith** yn datgan cefnogaeth, gweler atodiad 2.

**<u>TRAFODAETHAU PWYLLGOR IAITH YN Y GORFFENNOL</u>**

Yn ei gyfarfod ar Hydref 11, 2012 trafododd y Pwyllgor Iaith yr enwau safonol a roddir ar strydoedd, tai a lleoedd.  Bryd hynny nodwyd yr hyn dywed Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd:

**"…..enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor mewn perthynas ag enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, strydoedd newydd ac ati, ac ar sefydliadau'r Cyngor ac eithrio lle bo'r Cyngor ei hun wedi awdurdodi defnyddio fersiwn/fersiynau eraill."  4.2.1.**

Nodwyd hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012 bwysigrwydd defnyddio enwau Cymraeg lleol ar nodweddion daearyddol megis trwynau, ynysoedd, clogwyni ayb.  A hefyd i sicrhau enwau Cymraeg ar Lwybr Arfordir Cymru.

Ymddengys fod ewyllys da a chefnogaeth i amcanion yr ymgyrch yn eang ac y byddai cefnogith ystod o fudiadau ac asiantaethau yn Gymorth I ddwyn ffrwyth.  Mae Mapiau'r Ordnans eisoes, fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Iaith fis Hydref, 2012 wedi datgan eu bod yn agored i ystyried newid iaith enwau penodol ar gais budd-ddeiliaid tebyg i awdurdodau lleol neu Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

**<u>GOFYNNIR I'R PWYLLGOR:</u>**

Roi eu sylwadau ar gais ymgyrch Mynyddoedd Pawb am gefnogaeth i'w amcanion

I ystyried cysylltu â threfnwyr yr ymgyrch i ddatgan cefnogaeth Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd a'r amcanion hynny.